# Y BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 21 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins and L.M. Stephens.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: D.M. Cundy and A.G. Morgan.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Mrs R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant
W. Walters, Cyarfwyddwr Adfywio a Pholisi
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Hockenhull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir - 10.00  - 10.25 y.b**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Tremlett.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 17EG RHAGFYR 2018.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018, gan eu bod yn gywir.**

**4. CWESTIYNAU Â RHYBYDD GAN AELODAU.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

**5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

6. **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A DEDDF (CYMRU) LLES 2014 - POLISI A DIWYGIADAU GWEITHDREFN I GODI TÂL AM WASANAETHAU I OEDOLION.**

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon wedi ei thynnu oddi ar yr agenda.

7. **ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r gyllideb fel yr oedd ar 30 Hydref 2018.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn rhagweld y byddai gorwariant o £1,255k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod ac y byddai gorwariant o £2,760k gan yr adrannau. Roedd y pwysau mwyaf sylweddol yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, ac mae angen i'r Adran roi sylw beirniadol i'r sefyllfa a ragwelir ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith nad yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cyfrannu'n llawn at y cytundebau teiran ar gyfer lleoliadau yn Uned Breswyl y Garreg Lwyd ac ystyriwyd y byddai angen atgoffa'r Bwrdd am ei gyfrifoldeb.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr adroddiad monitro'r gyllideb yn cael ei dderbyn.**

8. **DIWEDDARU RHAGLEN GYFALAF 2018-19.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y Rhaglen Gyfalaf yn erbyn cyllideb 2018/19, fel yr oedd ar 31 Hydref 2018.

Nodwyd y rhagwelwyd gwariant net o £52,244k o gymharu â chyllideb net weithredol o £43,878k gan roi £-1,634k o amrywiant.

Roedd y gyllideb net wedi'i hailbroffilio gan £1.887 miliwn pellach o 2018/19 i'r blynyddoedd sydd i ddod er mwyn ystyried y wybodaeth a ddiweddarwyd yn y proffil gwariant a chafodd y llithriad yn y gyllideb o 2017/18 ei gynnwys hefyd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod adroddiad monitro'r gyllideb a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen gyfalaf, fel y manylir yn Atodiad A a B, yn cael ei dderbyn.**

9. **UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fusnes brys.

10. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)**

**(Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 11. CYMORTH ARIANNOL I YMDDIRIEDOLAETH ADFYWIO TREFTADAETH SIR GAR/ BLAS LLANELLY.

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno).**

[Nodyn – Nid oedd C Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, yn bresennol yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.]

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar yr achos dros gymorth ariannol parhaus ar gyfer prosiect Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gaerfyrddin/Plas Llanelly.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhelliad o becyn cymorth ar gyfer Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gaerfyrddin/Plas Llanelly o hyd at £60k y flwyddyn am y 2 flynedd nesaf yn amodol ar adolygiad o'r rhagolygon ariannol cyn blwyddyn 2.**

| ________________________ | ________________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |